# Crynodeb o Fil
## Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru)

Mai 2012

Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiduedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.**

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:
**www.cynulliadcymru.org/research**

Mae copïau printiedig hefyd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau:

**Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

E-bost: **Research.Service@wales.gov.uk**
Twitter: **@YmchwilCCC**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Rhif ymholiad:** 12/1255

# Crynodeb o Fil
## Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru)

Mai 2012

Siân Hughes ac Alys Thomas

Rhif dogfen: 12/021

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Y Gwasanaeth Ymchwil

# Cynnwys


**1. Rhagymadrodd** ........ **1**

**2. Y cefndir** ........ **2**

2.1. Darpariaethau'r ddeddfwriaeth bresennol ........ 2
2.2. Y cyd-destun polisi ........ 2
2.3. Y Papur Gwyn ........ 4

**3. Y Bil** ........ **5**

3.1. Nodau polisi'r Bil ........ 5
3.2. Disgrifiad o'r Rhannau ........ 7

**Rhan 2 – Safonau** ........ **7**

Pennod 1: Ymyrryd ym materion rhedeg ysgolion a gynhelir ........ 7
Pennod 2: Ymyrryd mewn awdurdodau lleol ........ 8
Pennod 3: Canllawiau Gwella Ysgolion ........ 9

**Rhan 3: Trefniadaeth Ysgolion** ........ **10**

Pennod 1: Y Cod am Drefniadaeth Ysgolion ........ 10
Pennod 2: Cynigion Trefniadaeth Ysgolion ........ 10
Pennod 3: Rhesymoli Lleoedd Ysgol ........ 12
Pennod 4: Darpariaeth Ranbarthol ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig ........ 12
Pennod 5: Cynigion i Ailstrwythuro Addysg Chweched Dosbarth ........ 12
Pennod 6: Darpariaethau Amrywiol ac Atodol ........ 13

**Rhan 4: Cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg** ........ **13**

**Rhan 5: Swyddogaethau Amrywiol Ysgolion** ........ **14**

**Rhan 6: Cyffredinol** ........ **15**

**4. Yr ymateb i'r Bil** ........ **16**

# Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru)

## 1. Rhagymadrodd

**Dyddiad cyflwyno:** 23 Ebrill 2012.

**Yr Aelod sy'n gyfrifol:** Leighton Andrews AC, Y Gweinidog Addysg a Sgiliau.

**Y Pwyllgor yn y Cynulliad sy'n gwneud gwaith craffu cyfnod 1 ar y Bil:** Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

**Y dyddiad cau ar gyfer adroddiad cyfnod 1:** 12 Hydref 2012

Yn hwyr yn 2010, dangosodd tablau diweddaraf Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA) y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) fod Cymru wedi syrthio'n ôl o'i safle blaenorol yn 2006.[1] Yn Chwefror 2011 gwnaeth y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Leighton Andrews AC, ddatganiad yn amlinellu ystod o fesurau yr oedd yn bwriadu eu cymryd i fynd i'r afael â safonau addysg yng Nghymru.[2] Cyhoeddwyd Papur Gwyn ym mis Hydref 2011 ac ym mis Ebrill 2012 cyhoeddwyd ***Bil Safonau a Threfniadaeth (Cymru)***[3] ar y cyd â **Memorandwm Esboniadol**.[4]

Bydd y Bil yn gwneud y canlynol:

- darparu proses gliriach ar gyfer ymyrryd mewn ysgolion ac ar gyfer gwella ysgolion drwy gyflwyno canllawiau statudol;
- diwygio'r broses statudol ar gyfer trefniadaeth ysgolion fel y bo penderfyniadau'n cael eu gwneud yn lleol pryd bynnag y bo modd;
- diddymu'r gofyniad i Gyrff Llywodraethu Ysgolion gynnal Cyfarfodydd Blynyddol Rhieni a chyflwyno hawl newydd i rieni alw cyfarfodydd gyda Chyrff Llywodraethu Ysgolion;
- rhoi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol ac ysgolion o ran pennu prisiau prydau ysgol;
- prif ffrydio sawl rhaglen a ariennir gan grant er mwyn symleiddio'r prosesau presennol.;
- gwneud awdurdodau lleol yn atebol am gynllunio'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy roi sail statudol i Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.[5]

---

[1] OECD PISA, *PISA 2009 Results* [wedi'i gyrchu 2 Mai 2012]
[2] Datganiad Cabinet, Leighton Andrews AC, Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, *Perfformiad a Safonau*, 2 Chwefror 2011 [wedi'i gyrchu 2 Mai 2012]
[3] *Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru)* fel y'i cyflwynwyd [wedi'i gyrchu 8 Mai 2012]
[4] *Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru)* fel y'i cyflwynwyd; Memorandwm Esboniadol [wedi'i gyrchu 8 Mai 2012]
[5] Llywodraeth Cymru, *Gweinidog yn gosod Bil i godi safonau mewn ysgolion*, Hysbysiad i'r wasg, 23 Ebrill 2012 [wedi'i gyrchu 4 Mai 2012]

## 2. Y cefndir

### *2.1. Darpariaethau'r ddeddfwriaeth bresennol*

Bydd *Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru)* am y tro cyntaf yn cyfuno mewn un lle y darpariaethau sydd eisoes yn bod ac sy'n ymwneud â'r canlynol:

- ymyrryd gan yr awdurdodau lleol ym materion rhedeg ysgolion a gynhelir ac y bernir eu bod yn achosi pryder;
- ymyrryd gan Weinidogion Cymru ym materion rhedeg ysgolion a gynhelir ac y bernir eu bod yn achosi pryder;
- ymyrryd gan Weinidogion Cymru mewn awdurdodau lleol wrth i'r rheiny arfer eu swyddogaethau addysg.

Mae'r darpariaethau hyn i'w cael ar hyn o bryd yn ***Neddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998***[6] a ***Deddf Addysg 1996***.[7]

Mae darpariaethau eraill yn diwygio adrannau o ***Ddeddf Addysg 2002***,[8] ***Deddf Addysg 2005***[9] a ***Deddf Dysgu a Sgiliau 2000***.[10]

### *2.2. Y cyd-destun polisi*

Yn hwyr yn 2010, gosododd tablau diweddaraf Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA) y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) Gymru yn safle rhif 38 o ran darllen, 40 o ran mathemateg a 30 o ran y profion gwyddoniaeth, o blith 67 o wledydd,[11] sy'n is na'i safle blaenorol yn 2006.[12] PISA yw'r arolwg addysg rhyngwladol mwyaf yn y byd, gan gynnwys ysgolion a myfyrwyr mewn mwy na 60 o wledydd. Mae'n asesu gwybodaeth a sgiliau pobl ifanc 15 oed mewn mathemateg, darllen a gwyddoniaeth a chafodd ei ddatblygu ar y cyd gan wledydd yr OECD. Mae arolwg PISA yn cael ei gynnal bob tair blynedd, gan ganolbwyntio ar fathemateg, darllen a gwyddoniaeth yn eu tro.[13]

Ymatebodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Leighton Andrews AC, yn gryf i'r canlyniadau:

> Mae'r canlyniadau hyn yn siomedig. Maent yn dangos cwymp annerbyniol yn ein perfformiad cyffredinol - dylai pob un sy'n gysylltiedig â'r sector addysg yng Nghymru fod yn poeni.
> Ni allwn gael unrhyw esgusodion nac alibi. Mae gwledydd sy'n gwario llai ar eu haddysg na Chymru wedi gwneud yn well na Chymru.
> Rhaid i ysgolion, awdurdodau lleol a ni'r llywodraeth edrych ar y canlyniadau hyn yn onest a

---

[6] ***Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31)*** [wedi'i chyrchu 8 Mai 2012]
[7] ***Deddf Addysg 1996* (p.52)** [wedi'i chyrchu 8 Mai 2012]
[8] ***Deddf Addysg 2002* (p.32)** [wedi'i chyrchu 8 Mai 2012]
[9] ***Deddf Addysg 2005* (p.18)** [wedi'i chyrchu 8 Mai 2012]
[10] ***Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 (p.21)*** [wedi'i chyrchu 8 Mai 2012]
[11] **Newyddion y BBC, *PISA Tests show pupils in Wales falling behind*, 2 Rhagfyr 2010 [wedi'i gyrchu 4 Mai 2012]**
[12] **OECD PISA, *PISA 2009 Results* [wedi'i gyrchu 2 Mai 2012]**
[13] **Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg, Arolwg PISA 2012 [wedi'i gyrchu 2 Mai 2012]**

derbyn cyfrifoldeb amdanynt. Os ydym am sicrhau dyfodol llewyrchus i addysg yng Nghymru ni allwn oddef hunanfoddhad yn y dosbarth.

Yn syml, mae'r canlyniadau hyn yn dangos yn glir nad yw ysgolion yng Nghymru yn cyflawni'n ddigonol ar gyfer disgyblion ar bob lefel o ran gallu. Yr unig ffordd i ddisgrifio hyn yw ei fod yn fethiant systemataidd, mae pob un ohonom yn gyfrifol am hyn a rhaid i bob un ohonom rannu'r baich anodd o wyrdroi'r sefyllfa'n gyfartal.

Mae gan bobl ifanc Cymru'r un potensial â phobl ifanc eraill ar draws y byd. Mae'n rhaid i ni ailddechrau canolbwyntio ar safonau uwch, pennu'n huchelgeisiau a'n disgwyliadau yn uchel a cheisio edrych am welliannau ym mhob agwedd ar ein system.

Gadewch i mi fod yn gwbl glir - mae'n rhaid i ni fynd i'r afael â'r mater hwn yn syth ac fel mater o argyfwng. Mae'n gofyn am onestrwydd, arweiniad a dull o weithredu newydd mewn perthynas â bod yn atebol.[14]

Yn Chwefror 2011, gwnaeth y Gweinidog ddatganiad yn amlinellu ystod o fesurau yr oedd yn bwriadu eu cymryd i fynd i'r afael â safonau addysg yng Nghymru.[15] Dywedodd ei fod yn "gosod targedau clir" gan anelu:

at fod ymhlith yr 20 system ysgolion uchaf ar dabl sgoriau PISA yn 2015. Byddwn yn anelu at wella'n canlyniadau yn asesiad nesaf PISA yn 2012 o'u cymharu â'n canlyniadau yn 2009. Ni fydd hyn yn gwanhau'n hamcan i wella canlyniadau TGAU – mae angen inni wella perfformiad, gan gynnwys perfformiad darllen a mathemateg, a lleihau'r gwahaniaethau ar draws y system.[16]

Dywedodd maniffesto Llafur Cymru ar gyfer etholiad y Cynulliad yn 2011:

Rydym yn wynebu heriau mwy sylfaenol yng Nghymru; nid yw ein lefelau llythrennedd, yn arbennig ymysg bechgyn, mor uchel ag y dylent fod; rydym yn gwybod nad ydym yn ddigon uchelgeisiol ar gyfer rhai o'n dysgwyr a'n bod ni weithiau'n gosod ein disgwyliadau yn rhy isel; mae gormod o amrywioldeb rhwng ysgolion. Er bod gennym lawer o ysgolion rhagorol, mae angen i ni godi safonau ein hysgolion i gyd a cheisio cyflawni rhagoriaeth ym mhob un.[17]

Roedd yn cynnwys addewidion ynghylch:

Cynhyrchu Canllawiau Statudol ar gyfer gwella ysgolion, sydd yn nodi'r arfer gorau sydd ar gael ar hyn o bryd yng Nghymru a thu hwnt. Bydd hyn yn cynnwys strategaethau addysgu nod barcud. Byddwn yn canolbwyntio ar lythrennedd, rhifedd a mynd i'r afael ag anfantais.[18]

---

[14] Llywodraeth Cymru, *Gweinidog yn ymateb i ganlyniadau'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr*, Hysbysiad i'r Wasg, 7 Rhagfyr 2010 [wedi'i gyrchu 2 Mai 2012]
[15] Datganid Cabinet, Leighton Andrews AC, Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, *Perfformiad a Safonau*, 2 Chwefror 2011 [wedi'i gyrchu 2 Mai 2012]
[16] Ibid.
[17] Plaid Lafur Cymru, *Sefyll Cornel Cymru*, Maniffesto Llafur Cymru 2011 [wedi'i gyrchu 2 Mai 2012]
[18] Ibid.

a:

> Deddfwriaethu i sicrhau bod y rhan fwyaf o’r penderfyniadau i gau ysgolion yn cael eu gwneud yn lleol ac yn gyflymach nag y mae’r trefniadau presennol yn caniatáu.[19]

## *2.3. Y Papur Gwyn*

Ar 10 Hydref 2012, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y *Papur Gwyn: Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru)***.** Cafodd fersiynau a oedd yn addas i bobl ifanc a phlant eu cynhyrchu hefyd. Gofynnodd y Papur Gwyn am sylwadau ar gynigion Llywodraeth Cymru i deddfu yn y meysydd a ganlyn:

- Ymyrryd mewn ysgolion sy'n achosi pryder;
- Gwella ysgolion;
- Trefniadaeth ysgolion;
- Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg;
- Lleihau biwrocratiaeth:
    - Cyfarfodydd blynyddol â'r rhieni;
    - Dysgwyr ôl-16 ag anghenion addysgol arbennig (AAA) mewn ysgolion;
    - Menter brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd;
    - Cwnsela mewn ysgolion;
    - Codi taliadau hyblyg am brydau ysgol.

Yn dilyn yr ymgynghori, penderfynodd Llywodraeth Cymru na fyddai trosglwyddo cyllid at AAA ôl-16 i’r Grant Cynnal Refeniw yn cael ei gynnwys mwyach yn y *Bil Safonau a Threfniadaeth* ac y gwneir hynny drwy’r mecanweithiau trosglwyddo arferol gyda’r awdurdod lleol.

Cafodd yr **ymatebion** a **chrynodeb** eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2012. Cafwyd 72 o ymatebion:

- roedd 61 y cant yn cytuno â’r cyfan neu’r mwyafrif o’r cynigion;
- roedd 29 y cant yn cytuno/anghytuno â rhai; ac
- roedd 10 y cant yn anghytuno â’r mwyafrif neu’r cyfan o’r cynigion.

Mae’r canrannau hyn yn gymwys yn fras i holl feysydd y cynigion yn y Papur Gwyn. Ond, cafwyd rhywfaint o amrywio yn yr ymatebion i’r cynigion ynghylch canllawiau ar wella ysgolion, lle roedd 49 y cant o’r ymatebwyr yn cytuno â’r cynnig; 35 y cant yn cytuno/anghytuno â rhywfaint o’r cynnig ac 16 y cant yn anghytuno â’r rhan fwyaf neu’r cyfan ohono.

---

[19] Ibid.

# 3. Y Bil

## *3.1. Nodau polisi'r Bil*

Wrth osod y Bil gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, dywedodd y Gweinidog:

> Mae addysg yn rhan gwbl ganolog o'n Rhaglen Lywodraethu. Dylai holl blant a phobl ifanc Cymru gael manteisio ar yr addysg orau a fydd o les iddynt gydol eu bywydau. Mae lleihau biwrocratiaeth a gwella safonau mewn ysgolion yn hanfodol yn hyn o beth.
>
> Bydd y Bil a osodwyd gerbron y Cynulliad Cenedlaethol yn ein galluogi i godi safonau mewn ysgolion drwy ddarparu canllawiau statudol i awdurdodau lleol ar wella ysgolion. Bydd y canllawiau hynny'n fodd i sicrhau bod arferion da yn cael eu defnyddio mewn ffordd gyson ledled y wlad.
>
> Bydd y Bil yn cefnogi'r awdurdodau lleol drwy sicrhau eu bod y deall y pwerau sydd ganddynt i ymyrryd pan fo ysgolion yn tanberfformio. Bydd hefyd yn symleiddio'r broses trefniadaeth ysgolion, yn enwedig yng nghyd-destun cau ysgolion sydd ag ychydig o ddisgyblion neu ddim disgyblion. Bydd hyn yn lleihau'r ansicrwydd sy'n wynebu rhieni a disgyblion ar hyn o bryd.
>
> Bydd y Bil yn rhoi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol o ran codi tâl am brydau ysgol er mwyn iddynt fedru helpu plant o deuluoedd incwm isel sydd heb fod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.
>
> Bydd hefyd yn helpu i gefnogi datblygiad y Gymraeg drwy sicrhau bod gan awdurdodau lleol gynllluniau strategol i gefnogi ac i wella darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn addysg.
>
> Dw i wedi bod yn gwbl glir am fy awydd i wella safonau a pherfformiad ar draws y maes addysg yng Nghymru. Mae'r Bil dw i wedi'i osod heddiw yn gam mawr ymlaen yn hynny o beth.[20]

Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau yn y meysydd a ganlyn lle mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud bod Llywodraeth Cymru'n chwilio am welliant ar unwaith:

### Ymyrryd mewn ysgolion sy'n achosi pryder

Mae Llywodraeth Cymru'n credu ei bod yn bosibl bod anfodlonrwydd yr awdurdodau lleol i ddefnyddio'u pwerau cyfredol i ymyrryd mewn ysgolion sy'n achosi pryder yn deillio o ddeddfwriaeth aneglur ac amwys. Mae'r Bil yn anelu at gasglu ynghyd mewn un lle yr holl bwerau i ymyrryd sydd gan yr awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru a rhoi'r un seiliau dros ymyrryd i'r awdurdodau lleol a'r Gweinidogion. Mae'r Bil hefyd yn cryfhau ac yn diwygio'r pwerau ymyrryd.

[20] Llywodraeth Cymru, *Gweinidog yn gosod Bil i godi safonau mewn ysgolion*, Hysbysiad i'r wasg, 23 Ebrill 2012 [wedi'i gyrchu 4 Mai 2012]

**Canllawiau Gwella Ysgolion**

Y nod sydd wedi'i ddatgan wrth roi pwerau i Weinidogion Cymru i ddyroddi canllawiau statudol ar wella ysgolion yw cyflymu proses gwella ysgolion ledled Cymru a chreu perfformiad mwy cyson ar draws yr holl ysgolion.

**Trefniadaeth Ysgolion**

Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i'r mwyafrif o gynigion ynglŷn â threfniadaeth ysgolion gael eu penderfynu ar y lefel leol, naill ai gan y cynigydd neu gan Banel Penderfynu Lleol. Byddai Gweinidogion Cymru'n parhau i benderfynu ar rai cynigion. Y bwriad yw y byddai'r broses yn gyflymach.

**Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg**

Ar hyn o bryd, Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESPs) anstatudol yw cyfrwng Llywodraeth Cymru i fonitro sut mae'r awdurdodau lleol yn ymateb ac yn cyfrannu i'r Strategaeth Addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r Bil yn gosod y Cynlluniau hyn ar sail statudol gan fwriadu sicrhau gwell system gynllunio ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn yr awdurdodau lleol; cyhoeddi data ac adroddiadau blynyddol rheolaidd ar dargedau addysg cyfrwng Cymraeg gan yr awdurdodau lleol; rhagor o gyfleoedd i ddysgwyr gael addysg cyfrwng Cymraeg; a rhagor o ddysgwyr â sgiliau lefel uwch yn y Gymraeg.

**Cyfarfodydd Blynyddol â'r Rhieni**

Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i gyrff llywodraethu gynnal cyfarfod blynyddol â rhieni neu ofalwyr. Baich diangen yw hyn ym marn Llywodraeth Cymru. Byddai'r Bil yn dileu'r gofyniad ond yn cadw'r hawl i'r rhieni ofyn am gyfarfod petaen nhw'n dymuno.

**Cwnsela mewn ysgolion a brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd**

Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu trosglwyddo'r grantiau sydd wedi'u clustnodi ar hyn o bryd ar gyfer darparu brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd a chwnsela mewn ysgolion i'r Grant Cynnal Refeniw (RSG). Mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar yr awdurdodau lleol i ddarparu ar gyfer cwnsela mewn ysgolion a brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau.

**Codi taliadau hyblyg am brydau ysgol**

Ar hyn o bryd, lle mae'r awdurdodau lleol yn codi tâl am laeth, prydau neu luniaeth, mae'n rhaid iddyn nhw godi'r un pris ar bawb am yr un faint o'r un eitem. Byddai'r Bil yn rhoi hyblygrwydd i'r awdurdodau lleol yn eu strwythur prisio er mwyn cynnig prisiau gostyngedig i grwpiau penodol o ddisgyblion.

### *3.2. Disgrifiad o'r Rhannau*

Mae'r Bil wedi'i rannu'n chwe rhan. Mae **Rhan 1 yn rhoi trosolwg** ar ddarpariaethau allweddol y Bil.

## Rhan 2 – Safonau

### *Pennod 1: Ymyrryd ym materion rhedeg ysgolion a gynhelir*

Mae'r Bennod hon yn diwygio'r gyfraith bresennol mewn perthynas ag ymyrryd gan yr awdurdodau lleol a chan Weinidogion Cymru ym **materion rhedeg** ysgolion sy'n cael eu cynnal gan yr awdurdodau lleol ac ymyrryd gan Weinidogion Cymru mewn **awdurdodau lleol** wrth i'r rheiny arfer eu swyddogaethau addysg. Mae Llywodraeth Cymru'n dweud mai mater i'r awdurdod lleol fydd cymryd camau mewn perthynas ag ysgolion sy'n achosi pryder yn y lle cyntaf, ac na fydd Gweinidogion Cymru yn gweithredu at ei gilydd ond pan fo'r awdurdod wedi methu gwneud, neu os yw wedi gweithredu, ond yn annigonol.

Mae **adran 2** yn nodi'r wyth o seiliau penodol dros ymyrraeth gan Weinidogion Cymru neu awdurdodau lleol. Mae'r rhain yn cynnwys, yn Sail 1, lle mae safonau perfformiad disgyblion yr ysgol yn annerbyniol o isel. Mae'r adran yn nodi sut mae'r safonau i gael eu pwyso a'u mesur. Mae'r Seiliau hefyd yn cynnwys materion ynglŷn â methiant yn y ffordd y mae'r ysgol yn cael ei rheoli neu ei llywodraethu (Sail 2); ymddygiad y disgyblion (Sail 3); diogelwch y staff neu'r disgyblion (Sail 4); methiant y corff llywodraethu neu'r pennaeth i gydymffurfio â dyletswydd o dan y Deddfau Addysg (Sail 5); gweithredu afresymol gan y corff llywodraethu neu'r pennaeth yn eu swyddogaethau o dan y Deddfau Addysg (Sail 6); hysbysiad gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn) i ddweud bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol (Sail 7); a hysbysiad gan Estyn i ddweud bod angen mesurau arbennig (Sail 8).

Mae **adrannau 3 i 19** yn darparu i'r awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru roi hysbysiadau rhybuddio i gyrff llywodraeth ysgolion, (sef dechrau proses ymyrryd yn gyffredinol) ac yn gwneud darpariaeth ynghylch yr amgylchiadau y caniateir i'r pwerau i ymyrryd gael eu harfer odanyn nhw. Maen nhw'n darparu ar gyfer achosion lle nad oes rhaid rhoi hysbysiad rhybuddio (risg i iechyd a diogelwch neu os yw Seiliau 7 neu 8 yn bodoli). Maen nhw'n darparu ar gyfer penodi llywodraethwyr ychwanegol neu gorff llywodraethu sydd i'w gyfansoddi'n arbennig (bwrdd gweithrediaeth interim), atal cyllideb ddirprwyedig ysgol a phwerau i gyfarwyddo ac i gymryd camau.

Mae **adran 5** yn darparu **pŵer newydd i awdurdod lleol** i gyfarwyddo corff llywodraethu ysgol i wneud trefniadau neu i wneud contract i ddarparu gwasanaethau cynghori neu i gydlafurio er mwyn gwella perfformiad yr ysgol.

Mae **adran 19** yn darparu bod rhaid i bennaeth neu gorff llywodraethu ysgol gydymffurfio a chyfarwyddyd sydd wedi'i roi iddyn nhw gan awdurdod lleol neu Weinidogion Cymru mewn perthynas ag ymyrryd ym materion rhedeg ysgolion a gynhelir. Rhaid i'r cyfarwyddyd fod mewn ysgrifen a gall gael ei orfodi drwy orchymyn mandadol gan lys.

Mae **adran 20** yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i roi canllawiau i'r awdurdodau lleol o ran arfer eu swyddogaethau o dan Bennod 1 o Ran 2 o'r Bil, sef canllawiau y mae'n rhaid i'r awdurdodau lleol roi sylw iddyn nhw.

Mae **Atodlen 1** (a gyflwynir gan adran 18) yn gwneud rhagor o ddarpariaeth ynghylch byrddau gweithrediaeth interim. Mae'n ymdrin â'r newid o gorff llywodraethu a gyfansoddwyd yn normal i un sy'n cynnwys aelodau gweithrediaeth interim, a'r newid o gorff llywodraethu sy'n cynnwys aelodau gweithrediaeth interim yn ôl i gorff llywodraethu a gyfansoddwyd yn normal.

## *Pennod 2: Ymyrryd mewn awdurdodau lleol*

Mae'r Bennod hon yn nodi o dan ba amgylchiadau y caiff Gweinidogion Cymru ymyrryd yn y modd y mae awdurdod lleol yn arfer ei swyddogaethau addysg.

Mae **adran 21** yn nodi'r seiliau dros ymyrryd y mae'n rhaid iddyn nhw fodoli er mwyn i Weinidogion Cymru ymyrryd mewn awdurdod lleol. Os oes un neu ragor o'r seiliau hyn yn bodoli, bydd Gweinidogion Cymru'n gallu dechrau proses ymyrryd. Y Seiliau yw bod yr awdurdod:

- yn methu, neu'n debyg o fethu, â chydymffurfio â dyletswydd sy'n swyddogaeth addysg;
- yn gweithredu, neu'n bwriadu gweithredu, yn afresymol wrth arfer swyddogaeth addysg; ac
- yn methu, neu'n debyg o fethu, â chyflawni swyddogaeth addysg yn ôl safon ddigonol.

Mae **adrannau 22 a 23** yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, os oes un neu ragor o'r seiliau a nodwyd uchod yn bodoli, roi hysbysiad rhybuddio i'r awdurdod lleol, (sef dechrau'r broses ymyrryd yn gyffredinol) ac yn nodi o dan ba amgylchiadau y caniateir i Weinidogion Cymru arfer y pwerau i ymyrryd mewn awdurdod lleol. Maen nhw hefyd yn nodi enghreifftiau lle nad oes angen rhoi hysbysiadau rhybuddio (risg i iechyd a diogelwch neu os nad yw'r awdurdod lleol yn debyg o allu cydymffurfio â hysbysiad rhybuddio neu sicrhau y cydymffurfir ag ef) cyn arfer pwerau ymyrryd.

Mae **adrannau 24 a 25** yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol sicrhau gwasanaethau cynghori gan drydydd parti neu

ddefnyddio gwasanaethau trydydd parti i gyflawni ei swyddogaethau. Mae **adran 26** yn caniatáu i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i swyddogaethau'r awdurdod lleol gael eu cyflawni gan Weinidogion Cymru neu gan berson a enwebir gan Weinidogion Cymru.

Mae **adran 27** yn galluogi Gweinidogion Cymru, wrth roi cyfarwyddiadau o dan adrannau 25 neu 26, i gynnwys cyfarwyddiadau sy'n ymwneud ag **unrhyw rai o swyddogaethau addysg yr awdurdod lleol**, ac nid dim ond y swyddogaethau hynny y mae'r pwerau i ymyrryd yn ymwneud â nhw.

Mae **adrannau 28, 29 a 30** yn darparu pŵer cyffredinol i roi cyfarwyddiadau i awdurdod lleol ac i gymryd camau mewn perthynas ag ef pan fo pŵer i ymyrryd yn bodoli; bod rhaid i awdurdod lleol gydymffurfio â chyfarwyddyd (sy'n gorfod bod mewn ysgrifen ac a all gael ei orfodi drwy orchymyn mandadol gan lys); ac yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu helpu yn y camau y mae angen eu cymryd er mwyn cydymffurfio â chyfarwyddiadau.

Mae **adran 31** yn nodi hawliau i fynd i mewn mewn cysylltiad â chyflawni cyfarwyddiadau.

## *Pennod 3: Canllawiau Gwella Ysgolion*

Mae'r Bennod hon yn darparu i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i benaethiaid, cyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol ar sut i arfer eu swyddogaethau er mwyn gwella safonau addysg.

Mae **adrannau 32 a 34** yn diffinio 'awdurdod ysgol' y caniateir dyroddi canllawiau iddo (awdurdod lleol, corff llywodraethu neu bennaeth ysgol a gynhelir yng Nghymru); yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i ddyroddi canllawiau i awdurdodau ysgol gan nodi sut maen nhw i wella safonau addysg mewn ysgolion; ac yn nodi'r weithdrefn y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ei dilyn cyn cyhoeddi canllawiau gwella ysgolion, gan gynnwys ymgynghori a'u gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae **adrannau 35 a 36** yn gosod dyletswydd ar awdurdodau ysgol i gydymffurfio â'r canllawiau. Maen nhw'n caniatáu i awdurdodau ysgol wyro oddi wrth y canllawiau. Pan fo awdurdod ysgol yn awyddus i wneud hynny, rhaid iddo ddyroddi datganiad polisi yn manylu ar ei bolisi amgen ar gyfer arfer y swyddogaethau addysg o dan sylw. Wedyn rhaid iddo ddilyn y polisi amgen hwnnw. Rhaid i ddatganiadau polisi nodi'r cwrs gwahanol y mae awdurdod ysgol yn dymuno'i ddilyn a'r rhesymau dros ddilyn cwrs gwahanol.

Mae **adran 37** yn darparu i Weinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdod ysgol i gydymffurfio â'r canllawiau os yw Gweinidogion Cymru o'r farn nad yw'r cwrs

gweithredu amgen a nodwyd yn natganiad polisi awdurdod ysgol yn debyg o wella safonau addysg.

## Rhan 3: Trefniadaeth Ysgolion

Mae Rhan 3:

- yn diwygio ac yn dwyn ynghyd mewn un lle y gyfraith ynglŷn â threfniadaeth ysgolion Cymru;
- yn ei gwneud yn ofynnol i God newydd ar Drefniadaeth Ysgolion gael ei gyhoeddi; ac
- yn creu fframwaith newydd ar gyfer penderfynu ar gynigion sy'n cael eu gwrthwynebu, gan gynnwys sefydlu paneli penderfynu lleol a phroses symlach i gau ysgolion sydd â llai na deg o ddisgyblion.

### *Pennod 1: Y Cod am Drefniadaeth Ysgolion*

Mae **adrannau 38 a 39** yn creu gofyniad bod rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi a chyhoeddi cod ar drefniadaeth ysgolion y mae'n rhaid i bersonau sydd wedi'u rhestru weithredu yn unol ag ef os yw'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol iddyn nhw wneud. Caniateir hefyd i'r Cod gynnwys canllawiau sy'n nodi nodau, amcanion a materion eraill y mae'n rhaid i'r personau a enwir roi sylw iddyn nhw. Maen nhw'n nodi'r weithdrefn y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ei dilyn cyn dyroddi'r Cod, gan gynnwys ymgynghori a gosod y Cod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

### *Pennod 2: Cynigion Trefniadaeth Ysgolion*

Mae **adran 40** yn golygu bod rhaid cydymffurfio â'r prosesau a nodir yn y Rhan hon wrth agor neu gau ysgol a gynhelir, neu wrth wneud newid arwyddocaol - ac eithrio pan fo Gweinidogion Cymru'n defnyddio'u pwerau ymyrryd i gyfarwyddo cau'r ysgol o dan adran 16 (ysgol y mae arni angen mesurau arbennig). Mae'n gwahardd unrhyw newid i ysgol a gynhelir sy'n newid ei chymeriad crefyddol neu sy'n peri iddi gaffael neu golli cymeriad crefyddol.

Mae **adrannau 41-44 ac Atodlen 2** yn rhoi pŵer i'r awdurdodau lleol i wneud cynigion i sefydlu a therfynu ysgolion penodol ac i wneud newidiadau rheoleiddiedig iddyn nhw ac, o sicrhau cydsyniad Gweinidogion Cymru, i wneud newid rheoleiddiedig er mwyn agor neu gau chweched dosbarth ysgol mewn ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig. Hefyd caiff unrhyw berson wneud cynnig i sefydlu ysgol sefydledig a chaiff corff llywodraethu ysgol sefydledig, ysgol wirfoddol neu ysgol arbennig sefydledig wneud cynigion i wneud newid rheoleiddiedig i'r ysgol

neu i’w therfynu. Mae **Atodlen 2** yn nodi’n fanwl y newidiadau rheoleiddiedig y caniateir eu gwneud i ysgol ac yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i ychwanegu, newid neu ddileu newid rheoleiddiedig drwy Orchymyn.

Mae **adrannau 45 i 48** yn manylu ar bwy gaiff wneud cynigion i newid categori ysgol. Ni chaiff ysgol newid categori i ddod yn ysgol sefydledig. I ddod yn ysgol wirfoddol a gynorthwyir, rhaid i’r corff llywodraethu fodloni Gweinidogion Cymru eu bod yn gallu bodloni’r rhwymedigaethau ariannol am gyfnod o bum mlynedd o leiaf ar ôl i’r newid categori ddigwydd. Nid yw newid categori yn awdurdodi newid yng nghymeriad crefyddol ysgol, nac yn ei hawdurdodi i sefydlu corff sefydledig, ymuno ag ef nac ymadael ag ef.

Os bwriedir i ysgol ddod yn ysgol gymunedol neu’n ysgol arbennig gymunedol, rhaid iddi wneud y trefniadau trosglwyddo y manylir arnyn nhw yn Atodlen 5. Mae’r Atodlen honno’n darparu ar gyfer y broses, ac yn nodi’r broses, y mae’n rhaid i gyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol ei dilyn er mwyn gweithredu’r cynigion i newid ysgolion. Rhoddir pŵer newydd i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynglŷn â sut mae newid categori yn effeithio ar lywodraethu’r ysgol.

Mae **adrannau 49 a 50** yn ei gwneud yn ofynnol bod rhaid ymgynghori ynghylch cynigion trefniadaeth ysgolion a’u cyhoeddi. Er hynny, **nid yw’r gofyniad ynghylch ymgynghori yn gymwys yn achos cynigion i derfynu ysgolion sydd â llai nag deg o ddisgyblion cofrestredig** ar y dyddiad y mae’r Arolwg Ysgolion Blynyddol yn cael ei gynnal bob blwyddyn ar hyn o bryd. Maen nhw’n galluogi unrhyw berson i wrthwynebu cynnig mewn ysgrifen o fewn 28 diwrnod ar ôl y dyddiad cyhoeddi ac yn ei gwneud yn ofynnol i’r cynigwyr gyhoeddi crynodeb o’r gwrthwynebiadau ynghyd â’u hymatebion o fewn 28 diwrnod ar ôl diwedd y cyfnod gwrthwynebu.

Mae **adrannau 51-55 ac Atodlen 3** yn nodi y caiff unrhyw berson wrthwynebu cynnig, ond bydd pwy sy’n penderfynu ar y cynnig yn dibynnu ar ba un o’r tri chategori o wrthwynebwyr (a nodir yn adran 51) y mae’r person yn perthyn iddo. Mae gwrthwynebiadau mewn perthynas â chau ysgol sydd â llai na deg o ddisgyblion yn cael eu penderfynu gan y cynigydd ni waeth beth fo’r categori. Mae’r adrannau’n ymwneud â rhoi dogfennau i Weinidogion Cymru neu’r panel penderfynu lleol a sut i ymdrin â chynigion cysylltiedig. Maen nhw’n darparu fframwaith ar gyfer aelodaeth, gweithdrefn ac amrywiol faterion ynglŷn â phanel penderfynu lleol. Caniateir talu lwfansau a threuliau i aelodau’r panel penderfynu lleol yn unol â *Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011*. Bydd y panel hefyd yn gorff sydd o fewn awdurdodaeth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Mae **adran 56 ac Atodlenni 4 a 5** yn ei gwneud yn ofynnol i gynigion sydd wedi’u cymeradwyo, neu gynigion y mae’r cynigydd wedi penderfynu y dylen nhw gael eu rhoi ar waith, gael eu rhoi ar waith yn y ffurf y cawson nhw eu cymeradwyo neu eu

penderfynu, ac yn unol ag Atodlenni 4 a 5. Mae Atodlenni 4 a 5 yn rhoi rhagor o fanylion am roi cynigion statudol ar waith gan gynnwys darparu mangre a chymorth a throsglwyddo staff a thir.

## *Pennod 3: Rhesymoli Lleoedd Ysgol*

Mae **adrannau 58-64** yn nodi pwerau Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu i wneud cynigion i ostwng neu i gynyddu nifer y lleoedd ysgol yn eu hardal er mwyn mynd i'r afael â darpariaeth annigonol neu ormodol. Darperir pwerau i Weinidogion Cymru i wneud eu cynigion eu hunain i resymoli lleoedd os bydd yr awdurdod lleol yn methu â gwneud. Mae **adran 62** yn caniatáu ymchwiliad lleol os yw'r Gweinidogion wedi gwneud cynigion lle cafwyd gwrthwynebiadau o fewn y cyfnod gwrthwynebu.

## *Pennod 4: Darpariaeth Ranbarthol ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig*

Mae **adrannau 65-71** yn nodi pwerau Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo awdurdodau lleol i ystyried gwneud darpariaeth ranbarthol i blant sydd ag anghenion addysgol arbennig, neu i gyfarwyddo awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu i wneud trefniadau neu gynigion ar gyfer darpariaeth ranbarthol neu i wneud eu cynigion eu hunain ynglŷn â darpariaeth ranbarthol.

## *Pennod 5: Cynigion i Ailstrwythuro Addysg Chweched Dosbarth*

Mae **adrannau 72–78** yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud cynigion i sefydlu ysgolion cymunedol, ysgolion arbennig cymunedol neu ysgolion arbennig sefydledig newydd i ddarparu addysg chweched dosbarth yn unig; i ychwanegu neu i ddileu addysg chweched dosbarth mewn unrhyw ysgolion a gynhelir sydd eisoes yn bod; ac i derfynu unrhyw ysgol chweched dosbarth sydd eisoes yn bod. Maen nhw'n nodi'r gweithdrefnau sydd i'w dilyn os bydd Gweinidogion Cymru'n cyhoeddi cynigion i ailstrwythuro chweched dosbarthiadau ac yn gwneud diwygiadau canlyniadol o ran adroddiadau ar arolygiadau addysg chweched dosbarth.

## *Pennod 6: Darpariaethau Amrywiol ac Atodol*

Mae **adrannau 79 i 82:**

- yn caniatáu i gynigion i sefydlu ysgol newydd gynnwys sefydlu'r ysgol fel ysgol ffederal, sef ysgol sy'n rhan o grŵp o ysgolion ac iddo un corff llywodraethu;
- yn atal sefydlu ysgol yn Lloegr a fyddai'n cael ei chynnal gan awdurdod lleol yng Nghymru;
- yn galluogi corff llywodraethu ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol i derfynu eu hysgol drwy roi o leiaf ddwy flynedd o rybudd i Weinidogion Cymru a'r awdurdod lleol;
- yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdod lleol i derfynu ysgol arbennig gymunedol neu ysgol arbennig sefydledig (a hynny heb fod angen cynigion o dan adran 44) os ydyn nhw o'r farn ei bod yn hwylus gwneud hynny er mwyn iechyd, diogelwch neu les y disgyblion. Cyn gwneud hynny, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â phersonau penodedig. Rhaid hefyd i Weinidogion Cymru roi hysbysiad i'r corff llywodraethu a'r pennaeth perthnasol.

## Rhan 4: Cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg

**Mae Rhan 4 yn ei gwneud yn ofyniad statudol bod gan yr awdurdodau lleol gynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg (WESPs)**, a hynny yn lle cynllun gwirfoddol.

Mae **adrannau 85 ac 86** yn nodi'r hyn y dylid ei gynnwys mewn cynllun ac yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod lleol i lunio cynllun, ei adolygu'n barhaus a'i ddiwygio os oes angen gwneud. Maen nhw'n nodi â phwy y mae'n ofynnol i'r awdurdod ymgynghori wrth lunio neu ddiwygio'i gynllun. Maen nhw'n darparu y bydd yn ofynnol i bob awdurdod lleol gyflwyno'i gynllun i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo. Caiff Gweinidogion Cymru gymeradwyo cynllun, ei addasu neu ei wrthod (a gosod eu cynllun eu hunain yn ei le). Mae'n gosod dyletswydd ar yr awdurdod lleol i gymryd pob cam rhesymol i roi ei gynllun ar waith pan fo hwnnw wedi'i gymeradwyo.

Mae **adran 87** yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau lleol asesu'r galw ymhlith rhieni am addysg cyfrwng Cymraeg o dan amgylchiadau penodol.

Mae **adran 88** yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau a fydd yn gwneud rhagor o ddarpariaethau ar faterion fel ffurf a chynnwys y cynllun, ei amseru a'i barhad, adolygu'r cynllun yn barhaus, ymgynghori a chyflwyno'r

cynllun i gael ei gymeradwyo i Weinidogion Cymru a chyhoeddi'r cynllun. Caniateir hefyd i reoliadau wneud darpariaeth i ganiatáu cynllun ar y cyd gan ddau neu ragor o awdurdodau lleol.  Mae'r adran hefyd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i ddyroddi canllawiau y mae'n rhaid i'r awdurdodau lleol roi sylw iddyn nhw wrth arfer eu swyddogaethau o dan Ran 4.

## Rhan 5: Swyddogaethau Amrywiol Ysgolion

Mae'r Rhan hon yn gwneud darpariaeth ynghylch **cynllun brecwast ysgolion cynradd**, cwnsela mewn ysgolion a chodi taliadau hyblyg am brydau ysgol.

Mae **adrannau 89 a 90** yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol ddarparu brecwast am ddim i'r disgyblion mewn ysgol gynradd y mae'n ei chynnal os yw corff llywodraethu'r ysgol wedi gwneud cais ysgrifenedig i'r awdurdod lleol am i frecwast gael ei ddarparu. Ni fydd y ddyletswydd yn gymwys os yw'r corff llywodraethu wedi gofyn i'r awdurdod lleol roi'r gorau i ddarparu brecwast, neu os bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu y byddai'n afresymol darparu brecwast, neu barhau i'w ddarparu, yn yr ysgol.  Mae'r adran yn nodi'r gofynion y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol eu bodloni wrth wneud trefniadau brecwast ac yn darparu pŵer i Weinidogion Cymri i ddyroddi canllawiau y mae'n rhaid i'r awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu roi sylw iddyn nhw.  Mae **adran 90** yn cynnwys darpariaethau trosiannol ynghylch ysgolion lle mae brecwast am ddim eisoes yn cael ei ddarparu neu lle mae cais o'r fath wedi'i wneud cyn i'r pwerau hyn ddod i rym.

Mae **adran 92** yn dirymu'r gofyniad[21] bod rhai i unrhyw dâl a godir am ddarparu llaeth, prydau a lluniaeth arall mewn ysgol fod yr un fath i bawb am yr un faint o'r un eitem.  Mae awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir wedi'u hatal rhag codi mwy na chost darparu llaeth, prydau a lluniaeth arall i'r disgyblion. Ar hyn o bryd, does dim cap ar faint a all gael ei godi ar ddisgybl.

Mae **adran 93** yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol wneud darpariaeth resymol ar gyfer gwasanaeth cwnsela annibynnol i ddisgyblion ysgolion uwchradd, disgyblion ym mlwyddyn olaf eu haddysg gynradd a phersonau eraill yn ardal yr awdurdod leol sydd rhwng 11 a 19 oed.  Mae'n nodi'r gofynion y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol eu bodloni ac yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau lleol ddarparu gwasanaethau cwnsela mewn mannau a bennir yn y rheoliadau.

Mae **adran 94** yn galluogi Gweinidogion Cymru i sicrhau gwybodaeth oddi wrth awdurdod lleol am ei wasanaeth cwnsela annibynnol. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol gydymffurfio â chyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru drwy

---

[21] O dan *Ddeddf Addysg 1996*

ddarparu a chrynhoi gwybodaeth am y gwasanaeth cwnsela ac yn atal datgelu pwy yw unigolyn.  Mae hefyd yn nodi'r sefyllfa os nad yr awdurdod lleol yw'r person sy'n darparu'r gwasanaeth cwnsela.

Mae **adrannau 95 a 96** yn darparu bod rhaid i gorff llywodraethu gynnal cyfarfod â'r rhieni os bydd pedwar o amodau wedi'u bodloni, sef: ei fod yn cael deiseb gan ganran benodedig neu nifer penodedig o'r rhieni; bod y cyfarfod yn cael ei gynnal er mwyn trafod mater sy'n ymwneud â'r ysgol; na cheir mwy na thri chyfarfod o'r fath mewn blwyddyn ysgol; a bod digon o ddiwrnodau ysgol ar ôl yn y flwyddyn ysgol i gynnal y cyfarfod. Mae'r adran yn nodi'r gweithdrefnau ar gyfer rhoi gwybod i'r rhieni a bod rhaid i'r llywodraethwyr roi sylw i ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.  Mae'r ddyletswydd gyfredol i gynnal cyfarfodydd blynyddol â'r rhieni yn cael ei ddiddymu.

## Rhan 6: Cyffredinol

Mae **adrannau 98, 99 a 100** yn nodi'r rheoliadau a'r gorchmynion o dan y Bil sydd i'w gwneud drwy offeryn statudol a gweithdrefn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer yr offerynnau hyn; mae'n diffinio termau sy'n cael eu defnyddio yn y Bil ac yn cynnwys mynegai o dermau sy'n cael eu diffinio at ddibenion rhai o ddarpariaethau'r Bil; ac mae'n rhoi ei heffaith i Atodlen 6 sy'n cynnwys diwygiadau mân a chanlyniadol o ganlyniad i'r darpariaethau yn Rhannau 2, 3 a 5.

## 4. Yr ymateb i'r Bil

Yn ei ddatganiad deddfwriaethol i'r Cyfarfod Llawn, dywedodd y Gweinidog:

> Bydd y cynigion yn y Bil hwn yn cryfhau safonau ysgolion, yn gwella penderfyniadau lleol ac yn lleihau cymhlethdod. Bydd y Bil yn cydgrynhoi, yn rhesymoli ac yn diwygio'r gyfraith bresennol ar ymyrryd mewn ysgolion sy'n achosi pryder, gan ddarparu eglurder angenrheidiol i awdurdodau lleol. Pan fydd ysgol yn achosi pryder, yr awdurdod lleol sydd yn y sefyllfa orau i ymyrryd. Felly, mae'n hanfodol bod awdurdodau yn glir ynghylch eu pwerau o ran ymyrryd a phwerau Gweinidogion Cymru, i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio yn bendant ac yn effeithiol i sicrhau ymyrraeth gynnar ac effeithiol, lle y bydd ei hangen. Bydd pŵer newydd i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol ar ysgolion sy'n peri pryder yn allweddol wrth gyflawni'r ymyrraeth gynnar ac effeithiol hon.[22]

Rhoddodd llefarydd y Ceidwadwyr ar addysg, Angela Burns AC, groeso bras i'r Bil gan nodi meysydd lle y byddai'n chwilio am ragor o eglurhad yn ystod y gwaith craffu, gan gynnwys:

> Mewn perthynas â threfniadaeth ysgolion, rwy'n cytuno'n llwyr â'ch sylwadau bod yn rhaid i'r arfer y gall un gwrthwynebydd, yn enwedig un heb ddim ddiddordeb uniongyrchol, gynnig awgrym i Weinidogion Cymru ddod i ben. Fodd bynnag, byddaf yn ceisio cyflwyno mesurau diogelu, megis lle y mae cynigwyr wedi gwneud eu gwaith cartref o ddifrif, fel nad yw rhai grwpiau o dan anfantais annheg, a bod elfennau megis natur wledig neu gyflwyno llwybrau dysgu 14-19 mewn perthynas â'r chweched dosbarth, er enghraifft, wedi cael eu hystyried o ddifrif. Hoffwn weld mesurau diogelu'n cael eu cynnwys.[23]

Nododd Simon Thomas AC, llefarydd Plaid Cymru ar addysg, y byddai ei grŵp ef hefyd yn fodlon cefnogi'r Bil petai materion yn cael eu hegluro yn ystod y gwaith craffu. Dywedodd:

> Mae dwy thema sy'n rhedeg drwy'r Bil y dylem fod yn wyliadwrus yn eu cylch. Yn gyntaf, a ydym yn rhoi'r hawl briodol i rieni ymyrryd yn y broses hon? Nid wyf yn dweud bod y Bil yn ddiffygiol yn hyn o beth, ond dyma un o'r pethau y dylem sicrhau ei fod yn y Bil drwyddi draw. Yn ail, dylem bob amser holi, pan fydd unrhyw Weinidog yn cyflwyno Bil, a yw'r Bil yn rhoi gormod o rym i'r Gweinidog, neu a yw'r grym a roddir yn briodol i ymateb i'r galw ac i ymateb i'r polisi a osodwyd gan y Llywodraeth. Dyna ddylem ei gadw mewn cof wrth ystyried Bil o'r fath. Dyna, yn sicr, y byddwn ni, ym Mhlaid Cymru, yn ei wneud, wrth i'r Bil hwn fynd drwy'r Senedd.[24]

---

[22] **Cofnod y Trafodion, 24 Ebrill 2012 [wedi'i gyrchu 4 Mai 2012]**
[23] Ibid.
[24] Ibid.

Nododd William Powell AC hefyd fod y Democratiaid Rhyddfrydol yn cefnogi'r Bil yn fras.[25]

Rhoddodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru groeso i'r Bil:

> Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn croesawu Mesur 'Safonau a Chyfundrefn Ysgolion' Cymru sydd newydd gael ei gyhoeddi, ac yn cefnogi ymdrechion Llywodraeth Cymru i wella deilliannau a chwtogi ar fiwrocratiaeth. Mae byd llywodraeth leol wedi bod yn cydweithio â Llywodraeth Cymru i fireinio rhannau o'r mesur ac mae llawer o'r gwaith manwl heb ei wneud eto. Bydd WLGA yn parhau i gydweithio â Llywodraeth Cymru i wella safonau addysg ledled y wlad.[26]

Dywedodd NUT Cymru:

> There is much to welcome in this Bill which will hopefully lead to significant improvements across a number of areas within the school system. Certainly, proposals around free school meal charging, provisions for pupils with special educational needs, school based counselling and the reduction of bureaucracy, are all positive steps forward.
>
> Where we exercise caution is in relation to proposals around interventions in schools by local authorities. What we would like to see is a system of cooperation and collaboration between parents, schools and the local authority to ensure that any school which requires assistance is given the necessary support. There must also be agreement on what assistance is required and the challenges which currently exist.
>
> What would be a cause for concern is if this Bill was used by local authorities as a green light to intervene when they may not understand the challenges faced by a particular school, or may not have the capacity to offer the support needed.
>
> We are encouraged that the Education Minister has stated publicly that he does not want to see banding as the sole driver in determining interventions. It will be important to keep a close eye on the practical application of the proposals to ensure that local authorities take a number of factors into consideration, and do not simply revert to interventions based on a fundamentally-flawed banding system, which many in the education sector continue to oppose.[27]

Dywedodd Cymdeithas yr Arweinwyr Ysgolion a Cholegau:

> The proposals in the education bill to remove the requirement on governing bodies to hold an annual parent meeting is hugely sensible. In many schools attendances at governor parent meetings have been consistently very low over the years. Times and technology have moved on and there are more effective ways that schools are engaging with parents.
>
> The current process for school reorganisation can be painfully slow and even result in situations where schools are open but with no students. Reform of the statutory process is

---

[25] Ibid.
[26] CLlLC, *WLGA yn croesawu Mesur Safonau a Chyfundrefn Ysgolion Cymru*, Hysbysiad i'r Wasg, 23 Ebrill 2012 [wedi'i gyrchu 8 Mai 2012]
[27] NUT Cymru, *NUT comment on Standards and Organisation Bill, Hysbysiad i'r wasg*, 24 Ebrill 2012 [wedi'i gyrchu 8 Mai 2012]

long overdue."

Whether clarifying the process for school intervention will actually deliver what the minister seeks, namely an improvement in standards and outcomes, is a matter for debate. It could well be counterproductive in the long run, in terms of recruitment and retention of high quality school leaders, if the LAs use intervention as a means of deflecting attention from their own failure to match robust challenge with positive support for schools which are deemed to be underperforming.[28]

Dywedodd Mudiadau Dathlu'r Gymraeg, grŵp ymbarél o fudiadau sy'n ymgyrchu dros addysg Gymraeg:

Hoffwn ni longyfarch y Gweinidog am gadw at ei addewid gwreiddiol o gyflwyno'r Bil yn unol â'i amserlen wreiddiol. Rydyn ni'n edrych ymlaen at gyd-weithio gyda'r Gweinidog ac Aelodau Cynulliad wrth i'r broses craffu ar y Bil fynd yn ei blaen. Nod ein mudiadau yw sicrhau bod Cymru yn gwireddu'r cerrig milltir yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng-Cymraeg gan sicrhau fod dysgwyr o bob oedran yn gallu cael mynediad hygyrch a hwylus at addysg cyfrwng-Cymraeg. Rydyn ni hefyd yn gobeithio y bydd cydnabyddiaeth yn y ddeddfwriaeth fod y gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn sgil addysgol hanfodol i bawb, nid lleiafrif o blant yn unig. Mae'r Gymraeg yn etifeddiaeth i bob un ohonom yng Nghymru a ni ddylai'r system addysg amddifadu dim un plentyn o ruglder yn ein hiaith unigryw.[29]

[28] ASCL, *Bill proposals on school reorganisation 'long overdue'*, Hysbysiad i'r wasg, 24 Ebrill 2012 [wedi'i gyrchu 8 Mai 2012]
[29] Mudiad Dathlu'r Iaith, *Bil addysg – ymateb grwpiau iaith*, Hysbysiad i'r Wasg, 24 Ebrill 2012 [wedi'i gyrchu 8 Mai 2012]